**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 15 Chwefror 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | D W Helliwell | T J Hennegan |
| P K Jones | H Lawson | W G Lewis |
| C E Lloyd | S Pritchard | G J Tanner |
| T M White | | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

| | |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| C A Holley | S M Jones | J W Jones |
| P R Hood-Williams | L R Jones | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Paul Thomas | Rheolwr Partneriaeth Integreiddio Cymunedol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): E W Fitzgerald a/ac W G Thomas
Aelodau Cyfetholedig Statudol:
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig:

---

### 95 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd Susan Jones – Cofnod Rhif 99 – Mab yn weithiwr i Heddlu De Cymru

Y Cynghorydd Wendy Lewis - Cofnod Rhif. 99 - Mab yn weithiwr i Heddlu De Cymru

Y Cynghorydd Sam Pritchard – Cofnod Rhif 99 – Aelod o'r Awdurdod Tân

Y Cynghorydd Terry Hennegan – Cofnod Rhif 99 – Aelod o'r Awdurdod Tân

**96 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**97 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2022 fel cofnod cywir.

**98 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**99 Craffu ar Droseddu ac Anrhefn - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel.**

Daeth cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru a'r cyngor i'r cyfarfod er mwyn darparu adroddiad cynnydd ar Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel, ac ateb cwestiynau, a gyd-gadeirir gan y ddau sefydliad.

Darparwyd cyflwyniad a oedd yn cynnwys y canlynol:-

- Cefndir
  - Gweledigaeth y bartneriaeth
  - Diben y bartneriaeth
- Llywodraethu Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel presennol
  - Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus
  - Grŵp Llywio Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel
  - Blaenoriaethau Strategol
- Y Bartneriaeth
  - Sefydliad
  - Rôl
- Fel partneriaeth, mynd ati i adolygu’n sefyllfa yn ystod y cyfnod diwethaf
  - Deall effaith y Pandemig – Niwed cudd/Camfanteisio'n Droseddol ar Blant/Cam-drin Domestig a Thrais/Trais yn erbyn menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
  - Rhagor o fflachbwyntiau ar gyfer tensiwn
  - SA1/Llais Cymru
  - Digartrefedd - Tai Dros Dro
  - Camddefnyddio sylweddau
  - Effaith economaidd gymdeithasol y cyfyngiadau symud
- Amlinellwch y cynnydd, yr heriau a'r cyfleoedd rydym wedi'u hwynebu yn erbyn y blaenoriaethau rydym wedi'u gosod.
  - Effaith yr Amrywiolyn Omicron
  - Goblygiadau Strategol/Tactegol
  - Gostyngiad yn y Galw
  - Goblygiadau o ran Adnoddau a Gwasanaeth

  - Erys Blaenoriaethau Strategol yn ddigyfnewid ond roedd meysydd ffocws ychwanegol megis effaith gudd y pandemig, tensiynau cymunedol a diogelwch y cyhoedd/lles/gwydnwch/adferiad
- Diweddariad ar Drosolwg Blaenoriaethau Strategol
  - Trais yn erbyn menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
  - Camddefnyddio Sylweddau
  - Cymunedau Cryfach
  - Economi'r hwyr a'r nos
  - Monitro troseddau casineb a thyndra cymunedol
- Heriau
  - Trais yn erbyn Menywod a Merched - Sbeicio diod
  - Tensiwn – Mae Bywydau Du o Bwys/Adennill y Strydoedd/Llais Cymru/Cinema and Co/Lloches/Gwrthwynebu Brechlynnau/Clydach
  - Mayhill – Ymgyrch Morano
  - Effaith Digartrefedd mewn Llety Dros Dro
  - Cyd-destun COVID-19 – Mae'r 4 E yn parhau - Effaith Gudd/Difaterwch Cyhoeddus
- Ymateb
  - Stryd Fwy Diogel – Pwynt cymorth/protocol/myfyriwr
  - Deialog Agored /ACC/Bod yn Agored a Thryloywder/Ffeithiau cyn Facebook
  - Adolygiad Annibynnol/gwersi a ddysgwyd/erlyniad cadarn
  - Monitro, Cefnogi ac Ymyriad Partneriaeth
  - Adnoddau/trwyddedu/Lles Economaidd a Phersonol
- Ffocws parhaus ar gyfer y dyfodol
  - Datrys Problemau Cymunedol – Canolbwyntio ar ganlyniadau ac uwchgyfeirio
  - Gorfodi Cyffuriau – Llinellau Sirol – dwysáu LlS/Canlyniad Ymgyrch Tilbury/Naloxone/Prosiect Adder
  - Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Ymyriadau fesul cam/atgyfeirio ymddygiad gwrthgymdeithasol/Proses gadarn ac archwiliadwy/Uwchgyfeirio i Orchymyn Ymddygiad Troseddol/Partneriaeth y Gwasanaeth troseddau ieuenctid/Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus
  - Troseddau Casineb – Cydlyniant/Naratif Ymateb
  - Troseddau sy'n gysylltiedig â chyllyll – Ymgyrch SCEPTRE/Wythnos weithredu ym mis Tachwedd/Dilyn y 4 P/Addysg/Ieuenctid/Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu/Tîm ymroddedig – wedi'i arwain gan ymateb a gwybodaeth
  - Natur Agored i Niwed – Ymyrryd ac Atal Cynnar/Ailstrwythuro'r Timau Ymchwilio i Dreisio ac Ymgyrch Soteria/Gwaith yn parhau SWAN a SWOT/Ffocws parhaus y Grwpiau Ymateb Cyflym i Hunanladdiad/Canolbwyntio ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Chamfanteisio Troseddol ar Blant.
- Y Dyfodol
  - Ymdrin â'r presennol fel y presennol
  - Cydlyniant a Chadernid Cymunedol – her i achub ar y blaen ac addysgu
  - Diogelu/Tarfu/Gorfodaeth ym mhob maes diamddiffynnedd
  - Y bartneriaeth i barhau i ddefnyddio ei chryfderau ar y cyd i ateb heriau'r presennol a'r dyfodol

- Y bartneriaeth i barhau i weithio i gysylltu anghenion a blaenoriaethau cymunedol gyda newid cynaliadwy a gweladwy ac i uwch-gyfeirio lle bo angen.

- Ystadegau perfformiad a throseddau
  - Trais yn erbyn Menywod a Merched
  - Troseddau a Gofnodwyd – Pob Trosedd – Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot Misol
  - Masnachu Cyffuriau
  - Ymgyrch Sceptre – Troseddau sy'n ymwneud â chyllyll
  - Ffigurau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer Abertawe Tachwedd 21 i Ionawr 2022.
  - Troseddau Casineb
- Abertawe Castell-nedd Port Talbot – Blaenoriaethau Plismona yn y Gymdogaeth
  - Gorseinon/Pen-lan
  - Gŵyr/Townhill
  - Canol y ddinas
  - Treforys/Eastside
  - Castell-nedd/Pontardawe
  - Port Talbot

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Y berthynas rhwng blaenoriaethau Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel, blaenoriaethau unigol yr Heddlu a blaenoriaethau'r cyngor
- Perthnasoedd a chyfathrebu rhwng yr heddlu ac aelodau'r ward – trefniadau ar gyfer cyfarfodydd ac adborth misol yn cael eu nodi ac yn gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd ond rhywfaint o le i wella
- Cynllun Lleihau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Chynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl – blaenoriaethau penodol allweddol
- Ymestyn Strategaeth Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel bresennol am 6 mis wrth weithio ar ddatblygu Strategaeth newydd
- Rôl y Bwrdd Troseddau Cyfundrefnol Difrifol o fewn Strwythur Llywodraethu cyffredinol PAMD - grŵp partneriaeth i ddatrys problemau ar droseddau cyfundrefnol
- Yr ymateb i derfysg Mayhill ym mis Mai 2021 a'r goblygiadau i'r PAMD o ganfyddiadau'r Adolygiad Dysgu Annibynnol a'r cynnydd ar yr argymhellion – nodwyd y caiff cyfarfod Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel anghyffredin ei gynnal ddiwedd mis Chwefror i edrych ar yr argymhellion a wnaed yn yr ymchwiliad; rhywfaint o bryder ynghylch y gwahaniaeth yn y gefnogaeth drwy wahanol ardaloedd yn dilyn y terfysg ym mis Mai 2021; nodwyd y byddai adolygiad mewnol o'r terfysg o fewn yr heddlu ac ailstrwythuro i fynd i'r afael â'r materion a godwyd
- Adnoddau/lefelau staffio  cyfredol yr Heddlu
- Mynd i'r afael â chanfyddiadau'r Adroddiad Ymchwiliad Annibynnol i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant – gwaith sy'n mynd rhagddo o ran proffilio a chyflawnrwydd data

- Graddau Troseddau Casineb yn Abertawe a mynd i'r afael ag amharodrwydd rhai unigolion i adrodd am droseddau o'r fath; yr ymrwymiad i Ddinas Hawliau Dynol a chynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd
- Effaith barhaus y pandemig a'r effaith ar weithgareddau trosedd ac anhrefn a PAMD
- Gwaith ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod/trais yn y cartref: ceisiadau grant llwyddiannus mewn perthynas â thrais yn y cartref; buddsoddi mewn diogelwch menywod yn yr economi'r nos; Creu mannau Diogel – Dros 20 o fusnesau a rhai gorsafoedd tân; ymagwedd at wella'r gyfradd gwynion sy'n bryderus o isel mewn perthynas â throseddau rhywiol sy'n arwain at ddwyn cyhuddiadau yn erbyn troseddwyr honedig; datblygu safle anghysbell i ddioddefwyr roi tystiolaeth yn ddiogel
- Gweithio mewn partneriaeth yn well o ganlyniad i'r pandemig
- Graddau'r achosion o dorri rheolau COVID-19 dros y flwyddyn ddiwethaf, a'r nifer sy'n manteisio ar adnoddau wrth orfodi – gwaith i symud i ffwrdd o 'doriadau' i 'addysg'
- Lefelau troseddau cyllyll – gwahaniaeth mewn ystadegau i ganfyddiad y cyhoedd; mesurau i fynd i'r afael â throseddau cyllyll ac ymddygiad gwrthgymdeithasol - ymgyrchu dros bobl ifanc 11-16 oed
- Problemau gyda beicwyr oddi ar y ffordd o amgylch Abertawe
- Ymagwedd fwy cydgysylltiedig at ymdrin â'r cyfryngau cymdeithasol ar draws partneriaid PAMD

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol.

**100 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwella Gwasanaethau a Chyllid (Y Cynghorydd Chris Holley, Cynullydd).**

Cyflwynodd y Cynghorydd Chris Holley, Cynullydd, Adroddiad Diweddaru'r Panel Gwella Gwasanaethau a Pherfformiad Chyllid.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**101 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth y paneli a'r gweithgorau craffu. Ni nodwyd unrhyw newidiadau.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

**102 Rhaglen Waith Craffu.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar y Rhaglen Waith Craffu.

Trefnwyd cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar gyfer 15 Mawrth 2022, a hwn fyddai cyfarfod olaf y pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ddinesig. Y prif eitemau a drefnwyd oedd:

- Ymchwiliad Craffu Caffael – Adroddiad Terfynol

- Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gwaith

Byddai eitem ychwanegol, Adroddiad Cwynion Blynyddol 2020/21, hefyd yn cael ei threfnu ar gyfer cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 15 Mawrth 2022.

Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf am Graffu Rhanbarthol a nododd fod Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wedi cyfarfod ac roedd Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, a fyddai'n cael ei wasanaethu gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, wrthi'n cael ei sefydlu.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

**103 Llythyrau Craffu.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Llythyrau Craffu' er gwybodaeth.

Nodwyd bod y Panel Ymchwiliad Cydraddoldeb wedi cyfarfod ar 26 Ionawr 2022 a'i fod yn hapus â’r modd yr oedd yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith a'r effaith gadarnhaol yr oedd yr ymchwiliad wedi'i chael. Roedd y panel wedi awgrymu y gellid sefydlu gweithgor untro i fynd ar drywydd datblygu Strategaeth Cydgynhyrchu gorfforaethol, a gofynnwyd cwestiynau am ba mor dda y mae cyd-gynhyrchu’n cael ei wreiddio o fewn y cyngor, etc. Byddai hyn yn cael ei nodi a'i drafod fel rhan o'r cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r llythyrau Craffu.

**104 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.**

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.06 pm

**Cadeirydd**